Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 23 Mawrth 2018**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
David Richards
Gawain Evans
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Ann Keane
Ellen Donovan
Jeff Farrar
James Turner
Gillian Baranski
Lynne Schofield

**Yn cefnogi:**
Jo Salway (Eitem 1)
Piers Bisson (Eitem 3)
Peter Ryland (Eitem 3)
Steven Marshall (Eitem 4)
Helen Morris (Eitem 4)
Paul McDonagh (Eitem 5)

**Ymddiheuriadau:**
Jeff Godfrey

**Ysgrifenyddiaeth:**
Catherine Ashford
Sarita Marshall

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd – Ellen Donovan a Jeff Farrar – i'w cyfarfod cyntaf o Fwrdd Llywodraeth Cymru.

1. **Ffyniant i Bawb – Diweddariad [Llafar]**

1.1 Adroddodd Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, ar gyfarfod cyntaf y Grŵp Cyfarwyddwyr *Ffyniant i Bawb*. Er budd y Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd a oedd yn bresennol, rhoddodd Jo grynodeb o strwythur a rôl y Grŵp. Dywedodd Jo fod cyfarfod cyntaf y Grŵp yn un egnïol iawn. Y cam gweithredu allweddol oedd sefydlu 'sesiynau herio' ar gyfer pob un o'r pum maes â blaenoriaeth.

1.2 Adroddodd Jo Salway ar y sesiwn her gyntaf a oedd wedi'i chynnal yn gynharach yn yr ystod yr wythnos – ar y Blynyddoedd Cynnar. Roedd y drafodaeth yn gadarnhaol iawn ac yn adlewyrchu awydd y cynrychiolwyr i gydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd a defnyddio'r adnoddau prin yn y ffordd orau posibl.

1.3 Adleisiodd y Prif Ysgrifennydd grynodeb Jo o gyfarfod Grŵp y Cyfarwyddwyr a'r sesiwn her ar y Blynyddoedd Cynnar, a diolchodd i Jo am roi'r strwythurau newydd yn eu lle.

1.4 Tynnodd Jo Salway sylw aelodau'r Bwrdd at lythyr diweddar y Prif Weinidog i'r Cabinet, a oedd yn pennu rôl newydd ar gyfer Julie James, Arweinydd y Tŷ, mewn perthynas â *Ffyniant i Bawb* a Swyddfa'r Cabinet. Dywedodd Jo Salway wrth y Bwrdd hefyd y byddai papur 'archwilio' ar gyfer *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb* yn mynd i'r Cabinet ym mis Mai. Byddai hwn hefyd yn cynnwys diwygio'r sector cyhoeddus a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

1.5 Mewn perthynas â'r Blynyddoedd Cynnar, cododd Ann Keane y mater bod protocolau yn rhwystr o bryd i'w gilydd i rannu data yn effeithiol rhwng sefydliadau. Cytunwyd y dylid dychwelyd at y pwynt hwn yn ystod yr eitem ar GDPR yn hwyrach yn yr agenda.

1.6 Awgrymodd David Richards y cyfle i ddod â rhanddeiliaid a phartneriaid allanol yn rhan o strwythurau llywodraethu newydd *Ffyniant i Bawb.*

1.7 Myfyriodd Andrew Goodall er bod eglurder o ran y themâu trawsbynciol, fod angen sefydlu mecanwaith o hyd ar gyfer rhoi trosolwg o'r cynnydd ar y gwaith nad yw wedi'i gynnwys yn y pum maes â blaenoriaeth. Nododd Andrew fod gwaith blaenoriaethu yn mynd i gael ei drafod yn y Grŵp Busnes a'r Uwch-dîm. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw cwblhau'r gwaith hwn i hwyluso'r broses o adleoli staff i flaenoriaethau.

1.8 Adroddodd Jo Salway fod system cynllunio busnes CPMS yn cael ei hail-strwythuro i adlewyrchu'r Nodau Llesiant a *Ffyniant i Bawb*.

**Cam gweithredu: Diweddariad ar y gwaith 'archwilio' i ddod i'r Bwrdd ym mis Ebrill (Jo Salway/ Yr Ysgrifenyddiaeth)**

**Cam gweithredu: Cyfarfod rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a Jo Salway i drafod y tabl atebolrwydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Jo Salway/ Yr Ysgrifenyddiaeth)**

## 2 Adroddiad Cyllid [Bwrdd (18)012]

2.1 Rhoddodd Gawain Evans ddiweddariad i'r Bwrdd ar ragolygon alldro 2017-18 a'r sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn.

2.2 Adroddodd Tracey Burke ei bod hi'n edrych yn ofalus ar amseru cyllid Llywodraeth Leol, yn arbennig y cyllid a ddarparwyd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol.

2.3 Gofynnodd Jeff Farrar beth fyddai lefel 'ddiogel' o gyllid wrth gefn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylid cymryd golwg ehangach ar

y blynyddoedd ariannol sydd i ddod yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Eitem ar y rhagolwg cyllid i'w chyflwyno yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol (Gawain Evans /Yr Ysgrifenyddiaeth)**

2.4 Adroddodd Gawain ar lwyddiant parhaus Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian parod a'r hyn yr oedd yn ei gynrychioli o safbwynt ad-daliad i'r sefydliad. Llongyfarchodd aelodau o'r Bwrdd y Tîm Cyllid Canolog ar ei berfformiad.

**Corfforaethol**

3 **Diweddariad ar Drefniadau Pontio'r UE a Chronfeydd Strwythurol yr UE [Bwrdd(18)003]**

3.1 Adroddodd Des Clifford fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) a bod Cydsyniad Brenhinol wedi'i dderbyn. Llongyfarchodd Des y tîm a oedd yn gyfrifol am y gwaith mawr dros y saith i wyth mis diwethaf, ac yn arbennig y berthynas weithio agos rhwng timau polisi, gwasanaethau cyfreithiol a'r gymuned wleidyddol. Er gwaethaf hyn, cadarnhaodd Des Clifford fod gwaith yn parhau i ddatrys y gwahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fil Ymadael y DU – adroddodd Piers Bisson ar y cynnydd ar y gwaith hwn.

3.2 Nododd Des Clifford fod cyfarfod o Gyngor yr UE yn mynd i gael ei gynnal yn hwyrach yn ystod y diwrnod hwnnw a disgwyliwyd cytundeb ar y trefniadau pontio a'r canllawiau ar gyfer negodi yn y dyfodol yn y cyfarfod hwnnw.

3.3 Rhoddodd Des Clifford ddiweddariad i'r Bwrdd ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau yn ogystal â'r gwaith oedd ar y gweill eisoes ar wasanaethau cyfreithiol, polisi amaethyddiaeth, a negodi. Tynnodd Piers Bisson sylw'r Bwrdd at bapur diweddar Is-bwyllgor Cabinet yr UE ar barodrwydd. Gofynnodd Peter Kennedy i aelodau'r Pwyllgor Tâl a oedd yn bresennol gadw mewn cof, mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, y pwysau sydd ar adnoddau'r UE a chyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol y Bwrdd yn ôl at yr ymarfer blaenoriaethu a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod yn y cyd-destun hwn.

3.4 Adroddodd Piers Bisson fod Is-bwyllgor Cabinet yr UE hefyd wedi ystyried papur ar ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â Brexit a chytuno ar agwedd bragmataidd tuag at ddeddfwriaeth y DU.

3.5 Llongyfarchodd Jeff Farrar y tîm am eu gafael ar faterion mewn adeg hynod ansicr. Adleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol y farn hon, gan dynnu sylw at waith eithriadol y tîm. Pwysleisiodd Des Clifford gyfraniad Gwasanaethau Cyfreithiol yn benodol.

3.6 Adroddodd Des Clifford ar ei ymweliad diweddar â Tsieina gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

3.7 Rhoddodd Peter Ryland ddiweddariad i'r Bwrdd ar raglenni presennol yr UE, gan gynnwys effaith y newidiadau i'r gyfradd gyfnewid a'r manteision a'r heriau a ddaw yn sgil y cyfnod pontio. Rhoddodd Peter Ryland y newyddion diweddaraf ynghylch 'Cronfa Ffyniant a Rennir' y Trysorlys.

3.8 Gofynnodd Ellen Donovan am y goblygiadau o ran cynllunio ar gyfer 2020. Darparodd Andrew Slade wybodaeth am y goblygiadau o ran datblygu systemau fel enghraifft. Cytunwyd y dylid cyflwyno papur ehangach ar y goblygiadau i feysydd polisi ac adnoddau yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Andrew Slade/ Peter Ryland/ yr Ysgrifenyddiaeth**

3.9 Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol dîm WEFO ar eu gwaith yn ystod cyfnod o ansicrwydd parhaus.

4 **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) [Bwrdd (18) 014]**

4.1 Darparodd Steven Marshall drosolwg o GDPR gan gynnwys y prif oblygiadau a meysydd pryder i Lywodraeth Cymru a'r gwaith ar y gweill i'w baratoi. Cyflwynodd Steven y Pennaeth Archwilio Mewnol, Helen Morris, a oedd wedi cael ei phenodi yn swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru.

4.2 Adleisiodd Helen Morris farn Steven Marshall ar barodrwydd. Cododd Helen Morris fater mewn perthynas â rheoli adnoddau prosiect a dull y sefydliad o'u dyrannu. Cytunwyd y byddai'r mater yn gysylltiedig ag adnoddau yn cael ei ystyried ymhellach a'i ddatrys.

**Cam gweithredu: Steven Marshall/ Peter Kennedy**

4.3 Gofynnodd Gillian Baranski i'r Bwrdd nodi llesiant staff yng nghyd-destun GDPR a'r straen a achosir pan gaiff achos o fynediad diawdurdod at ddata ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Adroddodd Tracey Burke ar y pwysau a deimlir ar hyn o bryd gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth sy'n paratoi ar gyfer pan ddaw'r GDPR i effaith. Cadarnhaodd Steve Marshall fod pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu ar gyfer Perchnogion Asedau Gwybodaeth.

4.4 Rhoddodd Natalie Pearson ddiweddariad i'r Bwrdd ar y gwaith cyfathrebu mewnol sydd ar y gweill, sy'n adeiladu ar y gwaith mawr 'wyneb i wyneb' a gwblhawyd eisoes gan Steve Marshall a'r tîm prosiect. Byddai'r ymgyrch yn defnyddio pob sianel gyfathrebu ac yn ystyried yr ymarfer gorau mewn sefydliadau eraill.

4.5 Gofynnodd Peter Kennedy i'r Bwrdd nodi pwysigrwydd arweiniad ar lefel uwch. Gofynnodd Jeff Farrar a David Richards i'r Bwrdd ystyried GDPR fel cyfle i wella a chytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod rhaid gweld GDPR fel cyfle i foderneiddio.

4.6 Nododd Ann Keane a Helen Morris bwysigrwydd rhannu data yn drefnus rhwng sefydliadau i wella gwasanaethau cyhoeddus. Cadarnhaodd Helen Morris y byddai'n cynnal gweithdai gyda Swyddogion Diogelu Data Cyrff a Noddir Llywodraeth Cymru.

5 **Parhad Busnes [Bwrdd(18)015]**

5.1 Rhoddodd Paul McDonagh ddiweddariad ar yr ymarfer TGCh a gynhaliwyd yn diweddar mewn perthynas â Pharhad Busnes.

5.2 Gofynnodd Paul McDonagh i'r Bwrdd nodi bod tua hanner staff Llywodraeth Cymru wedi ymuno â'r gwasanaeth neges destun brys. Cytunodd y Bwrdd y dylai staff â ffôn symudol sydd wedi cael ei roi iddynt gan Lywodraeth Cymru a'r rheini sy'n gweithio o bell gofrestru â'r gwasanaeth neges destun brys.

**Cam gweithredu: Peter Kennedy/ Paul McDonagh**

5.3 Cododd Paul McDonagh y mater o waith sy'n addas i staff mewn meysydd nad ydynt yn hanfodol i fusnes pan fo tarfu ar fusnes am gyfnod estynedig. Cytunodd y Bwrdd ei fod yn bwysig sicrhau cysondeb ar draws pob adran a bod gan dimau gynlluniau fesul cam a fyddai'n ystyried sefyllfa o'r fath.

5.4 Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, croesawodd Elan Closs Stephens yr ymarfer a phwysleisiodd bwysigrwydd cadw parhad busnes mewn cof ar y gofrestr risg corfforaethol.

5.5 Mewn perthynas â'r tywydd garw diweddar, nododd Andrew Goodall fod Llywodraeth Cymru wedi gallu arfer ei rôl drosolwg. Nododd hefyd y byddai'n bwysig dysgu gwersi o'r prawf 'bywyd go iawn' hwn ar y cynlluniau Parhad Busnes. Adroddodd Lynne Schofield ar faterion o ran mewngofnodi i systemau TGCh o bell. Adroddodd Natalie Pearson ar adborth da a gafwyd gan staff ar gyfathrebu mewn argyfwng ac eglurodd y broses ar gyfer cau swyddfeydd. Cadarnhaodd Peter Kennedy y byddai'r Uwch-dîm yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r tywydd garw.

**Cam gweithredu: Diweddariad i gael ei roi ar y sianeli cyfathrebu a fydd ar gael i staff mewn argyfwng (Natalie Pearson)**

**Eitemau Rheolaidd**

6. **Eitemau'r Prif Weinidog ac Adroddiadau Eithrio [Llafar]**

6.1 Darparodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddiweddariad ar yr ymchwiliadau presennol. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'w chydweithwyr am eu cefnogaeth gyda'r gwaith hwn a chyda materion eraill.

6.2 Gofynnodd Andrew Goodall i'r Bwrdd nodi bod hwn wedi bod yn gyfnod y gaeaf anodd iawn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gyda'r mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror prysuraf a gafwyd erioed. Gan fabwysiadu

agwedd gyflawn, sy'n ystyried y system gyfan at ddata ar berfformiad, cadarnhaodd Andrew Goodall fod gwasanaethau wedi cael eu cynnal gydol y cyfnod hwn. Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei chydweithwyr ar eu hymateb, gan gynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.

6.3 Gofynnodd Andrew Goodall i'r Bwrdd nodi bod y Gyfarwyddiaeth Iechyd wedi dechrau ar broses o 'gyd-gynhyrchu' gyda'r GIG a fydd yn para deuddeg wythnos mewn perthynas â'r adolygiad seneddol.

6.4 Gofynnodd Peter Kennedy i'r Bwrdd nodi bod disgwyl mwy o weithgarwch gan Undebau Llafur ar gyflogau'r sector cyhoeddus, fel ymateb i newidiadau yn ymwneud â'r GIG yn Lloegr.

## 7. Diweddariadau'r Is-bwyllgor [Llafar]

7.1 Darparodd Elan Closs Stephens, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, grynodeb o'r eitemau a ystyriwyd yn y cyfarfod ym mis Chwefror. Adroddodd Elan yn ôl hefyd o Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus, a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol, yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad o Gyrff a Noddir diweddar. Talodd yr Ysgrifennydd Parhaol deyrnged i adroddiad yr adolygiad, a luniwyd gan Julia Douch, ac adleisiodd farn Elan fod cyfarfod cyntaf y Fforwm yn gadarnhaol ac yn adeiladol.

7.2 Adroddodd James Turner, Cadeirydd Pwyllgor Tâl yr Uwch-wasanaeth Sifil, ar y cyfarfod diwethaf, lle darparodd Andrew Slade ei fyfyrdodau ar ddechrau ei benodiad yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

7.3 Rhoddodd David Richards, Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ddiweddariad ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 23 Mawrth 2018**

**Camau gweithredu yn codi yng nghyfarfod y Bwrdd, 26 Ionawr 2018**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Ffyniant i Bawb** | | |
| Diweddariad ar y gwaith archwilio i ddod i'r Bwrdd ym mis Ebrill | Jo Salway/ Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd. Eitem wedi'i hamserlennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd. |
| Jo Salway a'r Ysgrifennydd Parhaol i drafod tabl Atebolrwydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Jo Salway/ Yr Ysgrifenyddiaeth | |
| **Cyllid** | | |
| Papur 'rhagolwg' i ddod i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol | Gawain Evans/ Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd. Eitem wedi'i hamserlennu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. |
| **Trefniadau Pontio'r UE** | | |
| Papur 'goblygiadau cynllunio' i ddod i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol | Andrew Slade/ Peter Ryland/ Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd. Eitem wedi'i hamserlennu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin. |
| **GDPR** | | |
| Materion adnoddau prosiect i gael eu hystyried | Steve Marshall/ Peter Kennedy | |
| **GDPR** | | |
| Staff ag iPhone LIC a'r rheini sy'n gweithio o bell i gael eu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth neges destun brys hwn | Peter Kennedy/ Paul McDonagh | |
| **Parhad Busnes** | | |
| Diweddariad i gael ei roi ar y sianeli cyfathrebu sydd ar gael i staff | Natalie Pearson | |